

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

**Aelodau:**

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol
Adam Marshall	Aelod-gyflogai etholedig (wedi'i esgusodi o eitem 10 (a))
Anne Beegan	Aelod-gyflogai etholedig (wedi'i hesgusodi o eitem 10 (a))
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Kevin Thomas	Aelod-gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) (wedi'i esgusodi o'r drafodaeth a'r penderfyniad yn eitem 10(a))

**Ymddiheuriadau:**

Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS) (eitemau 1 – 7)
------------------	---

**Yn bresennol:**

Andrew Clark	Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC) (ac eithrio eitem 10(a))
Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS) (eitemau 8 i 20, ac eithrio eitem 10(a))
Katherine Drysdale	Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion)
Laurie Davies	Pennaeth y Gwasanaethau Busnes (eitem 8)
Matthew Hockridge	Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 7, 11 i 14)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitemau 11 a 12)

**Yn Arsylwi:**

Shelley Evans	Prif Gyfrifydd (ac eithrio 10(a))
Sara Utley	Arweinydd Archwilio Perfformiad (ac eithrio 10(a))

Eitem	Agenda
1.	Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2.	Datganiadau o fuddiant
3.	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol
4.	Y Diweddaraf gan y Cadeirydd
5.	Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 16 a 17 Mawrth 2022
6.	Adolygiad o'r traciwr gweithredu
7.	Adrodd ar berfformiad, gan gynnwys y gofrestr risg strategol
8.	Gweithleoedd yn y Dyfodol: arfarniad o opsiynau
9.	Adroddiad Blynyddol y Tîm Arwain Gweithredol

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Agenda</b>
10.	Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 26 Ebrill 2022, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd a Chylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru
11.	Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 07 Mehefin 2022, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd a Chylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru
12.	Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22
13.	Y Strategaeth bum mlynedd
14.	Adroddiad cydraddoldeb 2021-22
15.	Adolygiad o lywodraethu: dogfennau cyfansoddiadol a chynlluniau dirprwyo
16.	Trafodaeth baratoadol ar gyfer cyfarfod â'r undebau llafur
17.	Unrhyw fusnes arall
18.	Adolygiad o'r flaenraglen waith
19.	Adolygiad o'r cyfarfod
20.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Strategol - 9 Gorffennaf 2022; Busnes a Chyfarfod Bwrdd gyda'r Undebau Llafur - 27 Gorffennaf 2022

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Gweithredu</b>
<b>Eitemau Sefydlog</b>		
<b>1.</b>	<b>Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb</b>	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol.	
1.2	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb o'r cyfarfod cyfan. Nodwyd ymddiheuriad am absenoldeb o eitemau 1 - 7 o'r cyfarfod ar gyfer Ann-Marie Harkin.	
<b>2.</b>	<b>Datganiadau o fuddiant</b>	
2.1	Datganodd aelod-gyflogeion y Bwrdd (a'r staff a oedd yn bresennol) fuddiant yn eitem 10, yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn ymwneud â chyflog a buddion. Byddai elfen cyflog a buddion yr adroddiad yn cael ei thrafod yn breifat am resymau cyfrinachedd a sensitifrwydd masnachol ac i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes yn effeithiol fel eitem 10(a) a byddai aelod-gyflogeion yn esgusodi eu hunain o'r eitem honno. Byddai aelodau eraill o staff hefyd yn gadael ar gyfer yr eitem honno, ac eithrio Ysgrifennydd y Bwrdd a fyddai'n parhau i gadw cofnod o'r eitem.	
2.2	Nododd y Bwrdd y byddai eitem 8, gweithleoedd y dyfodol, hefyd yn cael ei thrafod yn breifat am resymau cyfrinachedd a sensitifrwydd masnachol ac i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes yn effeithiol. Nododd y Cadeirydd fod gan aelod-gyflogeion y Bwrdd (a'r staff a oedd yn	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	bresennol) fuddiant yn eitem 8, ond roedd hi'n fodlon nad oedd yn rhagfarnus, a byddent yn aros yn y cyfarfod.	
<b>3.</b>	<b>Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol</b>	
3.1	Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei ddiweddariad gan dynnu sylw'r Bwrdd at effaith ei adroddiadau, yn unol â'r strategaeth pum mlynedd, ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal a Gynlluniwyd yng Nghymru a oedd wedi defnyddio modelu data i ddarparu persbectif unigryw ac ychwanegu gwerth; a</li> <li>• Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, yr oedd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd wedi'i ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ei waith ei hun.</li> </ul>	
3.2	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>4.</b>	<b>Y Diweddaraf gan y Cadeirydd</b>	
4.1	Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig a rhoddodd ddiweddariadau byrion ynghylch y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses y Senedd ar gyfer recriwtio aelodau anweithredol newydd (a Chadeirydd) a fyddai'n dechrau ym mis Gorffennaf;</li> <li>• Arfarniadau aelodau'r bwrdd i'w cynnal yn yr haf, ac a fyddai'n ymgorffori adborth gan Gadeiryddion y Pwyllgor.</li> </ul>	
4.2	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>5.</b>	<b>Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 16 a 17 Mawrth 2022</b>	
5.1	Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 16 a 17 Mawrth yn gofnod cywir.	
<b>6.</b>	<b>Adolygiad o'r traciwr gweithredu</b>	
6.1	Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau ar y camau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn eu hadlewyrchu ar y traciwr, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• BSAC/21/036 (Effeithiolrwydd y bwrdd): gorgyffwrdd â chamau gweithredu eraill ar ymgysylltu, i'w hadolygu ar gyfer unrhyw gamau pellach a fydd eu hangen;</li> <li>• BSAC/21/053 (datblygiad y Dangosydd Perfformiad Allweddol): dyddiad targed i'w ddiweddarau i adlewyrchu y byddai hwn yn dod yn ôl i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023;</li> <li>• BSAC/21/055 (darparu adnoddau): angen eglurhad ynghylch sut a phryd y byddai gwybodaeth am gyflenwad a galw yn cael ei darparu i'r Bwrdd;</li> <li>• BSAC/21/061 (cofrestr risg strategol): dyddiad targed i'w ymestyn gan nad oedd fersiwn ryngweithiol y gofrestr ar gael i aelodau eto.</li> </ul>	BS
6.2	Gofynnodd y Bwrdd i Ysgrifennydd y Bwrdd adolygu'r camau ar y traciwr gyda pherchnogion gweithredu i roi diweddariadau clir am statws camau gweithredu a chofnodi pryd byddai eitemau'n dod yn ôl i'r Bwrdd pan fo hynny'n briodol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn	BS

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	dosbarthu fersiwn wedi'i diweddarau o gamau gweithredu sy'n weddill ar y traciwr yn dilyn yr adolygiad hwnnw.	
6.3	Wrth osod camau gweithredu, nododd aelodau y byddai'n ddefnyddiol i gamau gweithredu gael eu fframio'n fanwl gydag amserlen glir ar gyfer cwblhau.	
<b>7</b>	<b>Adrodd ar Berfformiad: cofrestr risg strategol</b>	
7.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd bapur a oedd yn rhoi trosolwg o'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu Archwilio Cymru. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y risgiau newydd a ychwanegwyd a risgiau a gaewyd.	
7.2	Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod y Pwyllgor yn falch o weld risgiau newydd yn cael eu hychwanegu yn dilyn adolygu'r datganiadau ariannol, ond roedd wedi gofyn i'r Tîm Arwain Gweithredol gynnal adolygiad llawnach o'r gofrestr, yn arbennig y targed a'r sgoriau risg gweddilliol i ganfod a ellid gwneud mwy i leihau lefelau risg.	
7.3	<p>Nododd y Bwrdd yr adroddiad a'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nid oedd mân newidiadau yn ddigon i sbarduno newid gweladwy wrth gategoreiddio risg weddilliol ar fersiwn bresennol y gofrestr, ond byddai'r fersiwn ryngweithiol yn darparu lefel uwch o fanylder;</li> <li>• byddai'r Tîm Arwain Gweithredol yn cynnal adolygiad newydd o'r gofrestr, gan gynnwys sgoriau risg targed a'r parodrwydd i dderbyn risg;</li> <li>• dylai fersiwn ryngweithiol o'r gofrestr fod ar gael ym mis Medi.</li> </ul>	Tîm Arwain Gweithredol
7.4	Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am berfformiad o'i gymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cynllun blynyddol.	
7.5	<p>Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol.</p> <p><u>Ansawdd archwilio</u></p> <p>Roedd y Bwrdd yn pryderu nad oedd y Dangosydd Perfformiad Allweddol yn adlewyrchu safon ansawdd gyffredinol gwaith archwilio ariannol yn gywir oherwydd y nifer isel o adolygiadau y cyfeirir atynt, a nododd y byddai'r dull gweithredu'n cael ei adolygu wrth symud ymlaen. Nododd y Bwrdd hefyd fod archwiliad o berfformiad wedi mabwysiadu safonau INTOSAI a byddai dysgu o hyn yn llywio'r dull gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r adroddiad blynyddol ymgorffori cyd-destun pellach i amlinellu'r dull o ymdrin ag ansawdd ac egluro'r canlyniadau. Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn ychwanegu troednodyn i ddarparu'r wybodaeth hon yn yr adroddiad blynyddol.</p> <p><u>Yr arolwg pobl</u></p> <p>Cydnabu'r Bwrdd fod y targed i gyflawni'r chwarter uchaf yn afrealistig a byddai'r Tîm Arwain Gweithredol yn ailystyried y Dangosydd Perfformiad Allweddol i osod meini prawf a thargedau clir i fesur</p>	<p>Pennaeth Cynllunio ac Adrodd</p> <p>Tîm Arwain Gweithredol</p>

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<p>cynnydd o'i gymharu â nhw, gan gydnabod, at ddibenion meincnodi, fod y Gwasanaeth Sifil dim ond yn cyhoeddi sgoriau canolrifol a chymedrig.</p> <p><u>Allyriadau Carbon</u></p> <p>Nododd y Bwrdd fod cyflawni dros y targed yn sylweddol. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes yn absenoldeb canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru y bu'n anodd gosod targedau a mesur cyflawniad yn gywir. Fodd bynnag, roedd yn disgwyl y byddai'r canllawiau ar gael i lywio'r gwaith o adrodd yn yr adroddiad Interim.</p>	
7.6	<p>Nododd y Bwrdd, mewn rhai meysydd, fod adrodd ar gyflawniad o'i gymharu â thargedau yn seiliedig ar asesiad goddrychol ac awgrymodd y gallai'r broses ar gyfer asesu cyflawniad o'i gymharu â tharged fod yn fwy penodol a/neu'n rhifiadol. Cytunodd yr EDCC y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith sydd i ddod i ddatblygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p>	EDCC
<b>8</b>	<b>Gweithleoedd yn y Dyfodol: arfarniad o opsiynau (a gynhaliwyd yn breifat)</b>	
8.1	<p>Cynhaliwyd yr eitem hon yn breifat am resymau cyfrinachedd a sensitifrwyd masnachol ac i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes yn effeithiol.</p>	
<b>9</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Tîm Arwain Gweithredol</b>	
9.1	<p>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Tîm Arwain Gweithredol yn ystod 2021-22.</p>	
9.2	<p>Nododd y Bwrdd yr adroddiad.</p>	
<b>10</b>	<b>Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 26 Ebrill 2022, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd a'r Chylch Gorchwyl diweddaraf</b>	
10.1	<p>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ei hadroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2022 (ac eithrio ystyried y setliad cyflog 2022-23) a thynnodd sylw at argymhellion y Pwyllgor. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fynegai ASHE yn fyr a sut y mae'r Senedd yn defnyddio hwn i lywio ei phroses negodi cyflogau.</p>	
10.2	<p>Fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymeradwyo'r cynllun a amlinellir yn y papur RHR(22)-22-004 i ddatblygu strategaeth y gweithlu a'i gynllun cyflawni i gyd-fynd â'r strategaeth bum mlynedd, gan gynnwys y camau nesaf a gynigir i gwblhau'r gwaith hwnnw;</li> <li>• cymeradwyo ail-enwi strategaeth y gweithlu yn Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad i adlewyrchu ei chynnwys a'i diben yn well;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>awdurdodi'r EDCS a Phennaeth Adnoddau Dynol i gynnal trafodaethau gyda'r undebau llafur ar fabwysiadu mynegai ASHE i lywio'r setliad cyflog ar gyfer 2023-24.</li> </ul>	
10.3	Nododd y Bwrdd y materion eraill a amlinellwyd yn yr adroddiad.	
10.4	<p>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol y canlynol gan y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar gyfer 2021-22 yn ymgorffori ei hunanasesiad;</li> <li>cylch gorchwyl diwygiedig, a oedd yn cynnwys mân newidiadau ymarferol.</li> </ul>	
10.5	Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol sylw'r Bwrdd at y diweddariadau i'r argymhellion yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021–22 gan esbonio'r argymhellion newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.	
10.6	O ran yr argymhellion ar gyfer 2022-23, eglurodd yr EDAS ei bod wedi cwblhau ei strwythur Cyfarwyddwyr newydd gyda'r penodiad terfynol yn dod i rym o ddechrau Gorffennaf. Awgrymodd y Bwrdd y dylai'r adolygiad ar gyfer y strwythur cyfarwyddwyr ddigwydd flwyddyn ar ôl ei weithredu. Byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno ar amseriad yr adolygiad gyda'r EDAS a byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnwys yr adolygiad yn rhaglen waith y Pwyllgor.	Cadeirydd / Ysgrifennydd y Bwrdd
10.7	Cymeradwyodd y Bwrdd adroddiad blynyddol y Pwyllgor a'i gylch gorchwyl diwygiedig.	
<b>10 (a) cyflog a buddion (trafodwyd yn breifat)</b>		
10.8	Gadawodd aelod-gyflogeion etholedig, EDCC, EDAS ac arsylwyr staff y cyfarfod.	
10.9	Rhododd yr aelod-gyflogai penodedig yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y trafodaethau rhwng y rheolwyr a'r undebau llafur, yna gadawodd y cyfarfod	
10.10	Trafodwyd yr eitem hon yn breifat am resymau cyfrinachedd a sensitifrwyd masnachol ac i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes yn effeithiol.	
10.11	Ail-ymunodd yr aelod-gyflogeion etholedig, yr aelod-gyflogai penodedig, EDCC, EDAS ac arsylwyr staff â'r cyfarfod.	
<b>11.</b>	<b>Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 07 Mehefin 2022, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd a Chylch Gorchwyl diweddaraf</b>	
11.1	Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mehefin, a oedd yn ategu'r papurau a gynhwysir ym mhecyn y Bwrdd.	
11.2	<p>Amlygodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yr adroddiad archwilio mewnol terfynol ar gyfer 2021-22 ar lywodraethu corfforaethol, gan esbonio bod y rheolwyr wedi</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<p>darparu sail resymegol foddhaol ar gyfer eu hymateb nad oedd yn derbyn yr holl argymhellion yn llawn;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod y Pwyllgor, yn amodol ar farn y Bwrdd, yn cynllunio adolygiad strategol, gydag archwiliad trylwyr, o'r gwaith o reoli'r gyllideb yn ei gyfarfod ym mis Medi;</li> <li>• roedd y Pwyllgor wedi awgrymu y dylid ymestyn datganiad llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i ymgorffori naratif i adlewyrchu'r gweithgareddau a gynigir yn yr adroddiad blynyddol ar lywodraethu gwybodaeth;</li> <li>• roedd yr adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban wedi arwain at drafodaeth ynghylch ymddiriedaeth sefydliadol yr oedd y Pwyllgor yn bwriadu ei harchwilio ymhellach;</li> <li>• yr argymhellion yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor.</li> </ul>	
11.3	<p>Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaglen waith dros dro y Pwyllgor ar gyfer 2022-23;</li> <li>• adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021-22;</li> <li>• cylch gorchwyl y Pwyllgor;</li> <li>• asesiad o gydymffurfedd â'r Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog.</li> </ul> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd gynnig y Pwyllgor i gynnal adolygiad, gydag archwiliad trylwyr, o'r gwaith o reoli'r gyllideb.</p>	
11.4	<p>Crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg drafodaeth y Pwyllgor ar yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol drafft, gan gynnwys y sicrwydd ategol gan Benaethiaid Archwilio Mewnol ac Allanol.</p> <p>Argymhellodd fod y Bwrdd yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd a gafwyd ar yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol;</li> <li>• argymhell i'r Swyddog Cyfrifyddu y dylai lofnodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 a'r llythyr sylwadau; ac</li> <li>• adolygu a chadarnhau ei broses a'i barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer rheoli'r cworwm yn ei gyfarfodydd.</li> </ul>	
11.5	Nododd y Bwrdd argymhellion y Pwyllgor.	
<b>12.</b>	<b>Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22</b>	
12.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol drafft terfynol, gan dynnu sylw at y gwelliannau i'r naratif ac addasiadau eraill a wnaed yn dilyn y gwahanol gamau adolygu ac ers dosbarthu'r drafft gwreiddiol.	
12.2	Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall lefel dileadau ffi archwilio, pan oedd cost yr archwiliad wedi mynd yn uwch na'r ffi. Esboniodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn rhagweld y byddai rhagamcanu yn gwella o ganlyniad i'r prosiect darparu adnoddau a fyddai'n rhoi gwybodaeth amser real am adnoddau wedi'u cynllunio ac adnoddau gwirioneddol, a chafodd ffioedd eu hadolygu ar sail y data hynny. Esboniodd yr	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Gweithredu</b>
	EDAS fod adolygiad wedi'i gynnal ar ddiwedd archwiliad i nodi'r rheswm dros fynd dros gyllidebau ac i benderfynu a ddylid dileu neu godi ffi ychwanegol.	
12.3	O ran cryfder y sicrwydd a gafwyd, yn amodol ar y diwygiadau a gytunwyd a'r ychwanegiad at yr adran llywodraethu gwybodaeth, argymhellodd y Bwrdd y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 a'r llythyr sylwadau. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r rhageiriau.	ACC / Cadeirydd
12.4	Cofnododd y Bwrdd ei ddiolch i'r rhai a oedd wedi paratoi ac archwilio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.	
<b>13</b>	<b>Y Strategaeth bum mlynedd</b>	
13.1	Cyflwynodd yr EDCC fersiwn derfynol o'r strategaeth bum mlynedd ar gyfer ei chymeradwyo, ac amlinellodd gynigion ar gyfer mesur a monitro perfformiad o'i gymharu â'r strategaeth. Esboniodd y byddai lle pwrpasol ar yr Hwb ar gyfer y strategaeth, y cynlluniau cyflawni a busnes a'r dolenni perthnasol.	
13.2	Nododd y Bwrdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>byddai'r strategaeth bum mlynedd yn cael ei chyflwyno drwy'r cynllun blynyddol a byddai diweddariadau perfformiad rheolaidd yn helpu i lywio camau cywiro pe bai angen - byddai grŵp cynllunio'r Bwrdd yn cynllunio'r fformat ar gyfer adrodd ar berfformiad, gyda detholiadau perthnasol o'r adroddiadau interim a blynyddol yn ffurfio rhan o'r diweddariadau chwarterol i'r Bwrdd;</li> <li>pe bai'r cynllun blynyddol yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar sail y strategaeth, yna byddai angen iddo gyd-fynd â'r strategaeth, a dylai hyn fod yn gliriach yng nghynllun blynyddol 2023-24.</li> </ul> Eglurodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd fod adrodd ar sail y cynllun blynyddol yn cynnwys adrodd ar gyfer gofynion statudol ac y gallai fod o gymorth i gynnwys y map ffordd ar gyfer pob blwyddyn o'r strategaeth yn y cynllun blynyddol cysylltiedig, gan fyfyrion rheolaidd i sicrhau bod Archwilio Cymru ar y trywydd iawn.	Grŵp cynllunio'r Bwrdd
13.3	Cymeradwyodd y Bwrdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>y strategaeth bum mlynedd, yn amodol ar fân gywiriadau;</li> <li>y datganiadau canlyniadau;</li> <li>y broses arfaethedig ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd drwy'r Adroddiadau Interim a Blynyddol.</li> </ul>	
<b>14</b>	<b>Yr Adroddiad Cydraddoldeb</b>	
14.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr Adroddiad Cydraddoldeb drafft ar gyfer 2021-22. Amlinellodd y ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb ac ar y cynnydd tuag at gyflawni amcanion	



**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	cydraddoldeb. Dywedodd fod adroddiad eleni yn gynharach nag yn y gorffennol ac awgrymodd iddo gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn yr haf.	
14.2	<p>Esboniodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y bu cynnydd cyffredinol yn effeithiol o ran y camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb ac amlygodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y lleihad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau</li> <li>• ystod yr asesiadau effaith a gynhaliwyd ac nad oedd y rhain wedi tynnu sylw at unrhyw bryderon sylweddol;</li> <li>• mai hwn oedd yr adroddiad terfynol ar sail y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol.</li> </ul>	
14.3	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgorffori adlewyrchiad o'r hyn a gyflawnwyd ar sail y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn y rhagair;</li> <li>• ymestyn yr adran ar y bwlch cyflog ethnigrwydd i esbonio bod mwy o geisiadau yn dod i law oddi wrth ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ond bod angen mwy o waith i ddeall yn llawn pam nad oedd y rhain yn eu tro yn arwain at benodiadau.</li> </ul> <p>Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn datblygu'r adroddiad i adlewyrchu sylwadau'r Bwrdd.</p>	Pennaeth Cynllunio ac Adrodd
14.4	Awdurdododd y Bwrdd y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gwblhau rhageiriau'r adroddiad ac, yn amodol ar fân ddiwygiadau, cymeradwyodd yr adroddiad cydraddoldeb drafft ar gyfer ei gyhoeddi	Cadeirydd / ACC
14.5	Diolchodd y Bwrdd i'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd am ei waith a'i gefnogaeth, a dymunodd yn dda iddo yn ei secondiad sydd ar ddod.	
<b>15</b>	<b>Adolygiad o lywodraethu: dogfennau cyfansoddiadol a chynlluniau dirprwyo</b>	
15.1	Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd bapur yn amlinellu ei dull o adolygu dogfennau llywodraethu'r Bwrdd. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y sylwadau yn yr adroddiad ar ganfyddiadau archwilio wrth reoli'r cworwm a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod y Bwrdd yn adolygu ac yn cadarnhau ei broses a'i barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer rheoli'r cworwm yn ei gyfarfodydd.	
15.2	Trafododd y Bwrdd y risgiau o fethu â modelu arferion gorau a'r her bosibl pe na bai'r Bwrdd yn bodloni gofynion cyfreithiol ar gyfer cwrdd â'r cworwm. Cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig cynnal safbwynt a mewnbwn yr aelod-gyflogai yn ei gyfarfodydd a nododd fod ei gylch gorchwyl yn cyflwyno opsiynau i Gadeirydd y Bwrdd eu hystyried pryd yr oedd angen penderfyniadau. Roedd y Bwrdd yn fodlon gyda'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli'r cworwm.	
15.3	<p>Gwnaeth y Bwrdd y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi'r diweddariad a'r cynllun ar gyfer adolygiad llawn o ddogfennau llywodraethu yn hydref 2022;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Gweithredu</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>mabwysiadu ei gylch gorchwyl diwygiedig; a</li> <li>chymeradwyo'r rolau cyswllt a hyrwyddwr arfaethedig a phenodiadau, gan nodi y byddai'r cyswllt ar gyfer seiberddiogelwch yn cael ei benodi yn dilyn y gweithdy seiberddiogelwch ym mis Gorffennaf.</li> </ul>	Cadeirydd
15.4	<p>Mewn cysylltiad â Chynlluniau Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, eglurodd Ysgrifennydd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyflwynwyd cynllun yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymgynghori â'r Bwrdd;</li> <li>cyflwynwyd cynllun Swyddfa Archwilio Cymru i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.</li> </ul> <p>Rhoddodd yr EDCS ei gyngor, fel partner moeseg, ar y newidiadau arfaethedig i Gynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol, a phe baent yn cael eu gwneud byddai angen newidiadau canlyniadol i Gynllun Swyddfa Archwilio Cymru.</p>	
15.5	<p>Nododd y Bwrdd yr ymgynghorwyd ag ef, ac roedd yn fodlon ar y newidiadau arfaethedig i gynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n gweithredu'r newidiadau i'w gynllun fel yr amlinellir yn y drafft sydd ynghlwm ac a adwaenir fel papur BSAC(64)-22-014(c).</p>	
15.6	<p>Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau y byddai'n ofynnol i Gynllun Dirprwyo SAC o ganlyniad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu'r newidiadau i'w gynllun.</p>	
<b>16</b>	<b>Trafodaeth baratoadol ar gyfer cyfarfod â'r undebau llafur</b>	
16.1	<p>Rhoddodd yr EDCS yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei drafodaethau gyda'r undebau llafur wrth baratoi ar gyfer eu cyfarfod blynyddol â'r Bwrdd gan amlinellu'r pynciau yr oedd yn rhagweld y gallai'r undebau llafur ddymuno eu trafod. Cadarnhaodd ei fod wedi gofyn i Gadeiryddion yr undebau llafur baratoi papur yn amlinellu'r pynciau trafod cyn y cyfarfod.</p>	
16.2	<p>Nododd y Cadeirydd y byddai cyfle pellach i gynllunio ar gyfer y cyfarfod gyda'r undebau llafur yn ei gyfarfod strategol ym mis Gorffennaf, ac y byddai'n ddefnyddiol cael golwg ar bapur yr undebau llafur cyn y cyfarfod hwnnw os yn bosibl.</p>	
<b>17</b>	<b>Unrhyw fusnes arall</b>	
17.1	<p>Nododd y Cadeirydd y byddai Anne Beegan yn ysgrifennu'r blog yn seiliedig ar y pum neges allweddol y byddai'r EDCC yn eu dosbarthu. Byddai Anne yn cynnwys nodyn atgoffa bod y Bwrdd yn croesawu arsylwyr staff i'w gyfarfodydd.</p>	AB / EDCC
17.2	<p>Tynnodd Elinor Gwynn sylw at ddigwyddiad cyfnewid arfer da ar berfformiad 'wayfarer' a thracio. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn dosbarthu gwybodaeth ymhlith aelodau.</p>	Ysgrifennydd y Bwrdd

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod Dydd Iau 09 Mehefin 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Gweithredu</b>
<b>18</b>	<b>Adolygiad o'r flaenraglen waith</b>	
18.1	Trafododd y Bwrdd ei flaenraglen waith y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei diweddarau.	Ysgrifennydd y Bwrdd
<b>19</b>	<b>Adolygiad o'r cyfarfod</b>	
19.1	Croesawodd y Bwrdd adborth gan aelod annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac aelodau o'r staff a oedd yn arsylwi'r cyfarfod, a oedd yn cydnabod y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfarfod da, agored a gonest;</li> <li>• ystyried a thrafod eitemau'n fanwl;</li> <li>• dull cynhwysol, yn ystyried a gwranddo ar farn pawb.</li> </ul>	
19.2	Wrth adolygu'r cyfarfod, croesawodd yr EDCS bwyslais clir y Bwrdd wrth ystyried y papur Gweithleoedd yn y Dyfodol, a gwerthfawrogodd yr ymddiriedaeth a ddangoswyd gan y Bwrdd ynghylch y gwaith a wnaed gan reolwyr.	
<b>20</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
20.1	Cyfarfod Strategol – 19 Gorffennaf 2022; Busnes a Chyfarfod â'r Undebau Llafur - 27 Gorffennaf 2022	